

**Twf Swyddi Cymru**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Manteisiwch ar gyfle gyda Twf Swyddi Cymru

**Dan Edwards**  
Meithrinfa Saplings

**“Ro’n i eisiau gyrfa ym maes gofal plant, ond ro’n i’n meddwl bod fy niffyg profiad yn fy nal yn ôl. Mae Twf Swyddi Cymru wedi rhoi cyfle i mi, ac mae wedi fy ngalluogi i gael mwy o hyder, a’r profiad yr oedd ei angen arna’i.”**

## Eisiau swydd ac angen cyfle i brofi’ch hun?

Mae Twf Swyddi Cymru’n rhoi cyfle i bobl ifanc 16-24 oed sy’n ddi-waith gystadlu yn y farchnad swyddi. Fe gewch swydd â chyflog am chwe mis – bydd yn brofiad da ac yn gam cyntaf yn eich gyrfa.

Mae swydd Twf Swyddi Cymru yn swydd go iawn – nid dim ond ‘profiad gwaith’ mohono. Cewch gontract ysgrifenedig gan eich cyflogwr a byddwch yn ennill yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, neu fwy. Byddwch yn gweithio o leiaf 25 awr yr wythnos (hyd at uchafswm o 40 awr yr wythnos) a byddwch yn ennill arian wrth ddatblygu eich sgiliau a’ch profiad.

## Cyfle euraidd

Mae yna ystod eang o swyddi ar gael ac mae swyddi newydd yn cael eu creu bob dydd.

Cânt eu hysbysebu ar **gyrfacymru.com** a gallwch wneud cais ar-lein. Gallwch hefyd ddod o hyd inni ar **Facebook** a’n dilyn ar **Twitter** i gael gwybod am y swyddi diweddaraf ar unwaith.

Cyn bwrw ymlaen, gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys.

## Ar ôl y cyfnod o chwe mis...

Mae cyflogwyr yn deall y dylai cyfle Twf Swydd Cymru barhau y tu hwnt i’r chwe mis chychwynnol. Os byddwch yn gweithio’n galed ac yn creu argraff, mae’n bosib iawn y gwnaiff y cyflogwr eich cadw ymlaen. Wrth gwrs, ambell waith ni fydd hyn yn bosibl; ond, os felly, byddwch wedi gwella’ch sgiliau ac wedi rhoi hwb i’ch gyrfa beth bynnag.

**GWNAF** ddechrau fy ngyrfa gyda **Twf Swyddi Cymru**  
gyrfacymru.com • **0800 028 4844**



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**  
European Social Fund

**Twf Swyddi Cymru**



**Gertrude Boeven**  
The Pudding Compartment

**“Ro’n i’n 18, ro’n i wedi gorffen yr ysgol ac ro’n i’n edrych am waith ym maes arlwyo. Mae Twf Swyddi Cymru’n gynllun gwych a alluogodd fi i gael sgiliau newydd, magu hyder a chael fy nhalu ar yr un pryd.”**

Byddwch hefyd mewn sefyllfa well i wneud cais am swydd neu am gyfle arall megis prentisiaeth.

### **Barod am y cam nesaf?**

Bydd angen ichi fod yn barod am swydd a phrofi eich bod yn gymwys cyn ymgeisio. Mae’r meini prawf yn cynnwys:

- Dwi’n 16-24 oed a dw i’n byw yng Nghymru.
- Dw i’n ddi-waith.
- Dw i ddim mewn addysg llawn amser.
- Dw i ddim wedi cwblhau rhaglen Twf Swyddi Cymru o’r blaen.
- Dw i ddim wedi fy nghyfeirio at y Rhaglen Waith na’r Rhaglen Dewis Gwaith.
- Dw i ddim ar raglen dysgu seiliedig ar waith Llywodraeth Cymru.

### **Gwiriwch a ydych yn gymwys a chofrestrwch ar gyfer Twf Swyddi Cymru nawr!**

Cyn mynd ymhellach, **rhaidd** ichi fod wedi’ch cofrestru gyda’r Ganolfan Byd Gwaith neu Gyrfa Cymru. Mae’r ddau gorff yn delio â phobl o wahanol oedran, fel a ganlyn:

- Os ydych yn 18-24 oed ac yn ddi-waith, bydd angen ichi gysylltu â’ch Canolfan Byd Gwaith leol, a fydd yn gwirio a ydych yn gymwys.
- Os ydych yn 16-17 oed ac yn ddi-waith, cysylltwch â Gyrfa Cymru yn uniongyrchol ar **0800 028 4844**.

Cefnogir rhaglen Twf Swyddi Cymru, a arweinir gan Lywodraeth Cymru, gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

**GWNAF** ddechrau fy ngyrfa gyda **Twf Swyddi Cymru**  
gyrfacymru.com • **0800 028 4844**

